

Gêmau i'w chwarae gyda'r pecyn symbolau CCUHP

Defnyddiwch eich pecyn symbolau CCUHP mewn unrhyw ffordd sy'n addas i'ch grŵp. Dyma awgrymiadau ar gyfer rhai gêmau gallwch chi roi cynnig arnyn nhw neu eu haddasu.



Datgelu'r Hawl

Cyflwyno plant a phobl ifanc i rai o'u hawliau drwy ddefnyddio gêm ddyfalu weledol.

- Cyflwynwch un o'r cardiau i'r grŵp. Gofynnwch i'r grŵp edrych ar y lluniau, efallai bydd rhai plant am gopiö gweithred sydd ar y cerdyn. Siaradwch am yr hawl sydd ar y cerdyn, anogwch y plant i bwyntio at y cerdyn, gafael ynddo, a'i drosglwyddo o fewn y grŵp.
- Gwnewch yr un peth â cherdyn arall.
- Cuddiwch y ddau gerdyn o dan ddarn o bapur.
- Gofynnwch i blentyn ddewis un. Tynnwch y papur yn ôl yn araf i ddatgelu'r llun i'r grŵp – all y plant ddyfalu pa hawl sydd yno? Allan nhw ddweud wrthyhych chi beth yw'r weithred neu ei dangos i chi?
- Gallwch ailadrodd hyn â dau gerdyn arall i gyflwyno rhagor o hawliau.

Helpa Hawliau

Cyflwyno plant a phobl ifanc i'w hawliau drwy ddefnyddio gêm ganfod.

- Rhowch rai o'r cardiau i fyny o amgylch y gofod, e.e. 5
- Dywedwch wrth y grŵp eu bod nhw'n mynd ar 'helpa hawliau'
- Gofynnwch i'r grŵp ddod o hyd i un o'r hawliau trwy ddweud yr hawl a naill ai: dangos cerdyn cyfatebol â'r hawl arno (os oes gennych chi ddwy set o gardiau); tynnu un o'r symbolau; neu gyflawni gweithred / meimio un o'r symbolau.
- Mae rhaid i'r grŵp ddod o hyd i'r cerdyn maen nhw'n meddwl sydd dan sylw.
- Yna gallwch chi ailadrodd hyn â hawl arall.
- Gallech chi estyn y gêm trwy roi'r cardiau mewn man sy'n gysylltiedig â'r hawl. E.e. rhoi'r hawl i gael bwyd a dŵr glân yn ymyl tap; rhoi'r hawl i chwarae mewn man chwarae; rhoi'r hawl i wybodaeth yn ymyl cyfrifiadur neu lyfr; rhoi'r hawl i addysg yn ymyl adnodd dysgu.
- Gallech chi hefyd estyn y gêm trwy ofyn i rai plant guddio'r hawliau o amgylch y gofod i weddill y grŵp ddod o hyd iddyn nhw. Pan fyddan nhw'n dod o hyd i hawl, gallwch chi drafod y symbol.

P'un sy fwy pwysig?

Gêm i blant a phobl ifanc ddatblygu eu dealltwriaeth o hawliau. Gallwch ei chwarae fel dilyniant neu estyniad i un o'r gêmau cychwynnol uchod.

- Rhowch nifer bach o gardiau i bob plentyn / pâr / grŵp bach fel bod gan bob plentyn / pâr / grŵp nifer bach o gardiau.
- Gofynnwch iddyn nhw arddangos eu cardiau yn nhrefn eu pwysigrwydd. Gallan nhw wneud hynny mewn unrhyw ffordd maen nhw'n dymuno. Efallai byddan nhw am greu llinell o'r top i'r gwaelod. Efallai hoffen nhw greu diemwnt. Efallai byddan nhw'n dewis rhoi'r cardiau yn ymyl ei gilydd neu mewn cylch.
- Gofynnwch i'r grŵp edrych ar gardiau ei gilydd. Gall dau grŵp edrych ar sut mae'r lleill wedi arddangos eu cardiau a thrafod, neu gallai'r grŵp cyfan symud o gwmpas i weld cardiau pawb.
- Estyniad: gallech chi greu grwpiau mwy o faint a chyfuno dwy set o gardiau gafodd eu harddangos. Sut bydden nhw'n eu trefnu wedyn?